Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
EBRILL 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Ebrill, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd **LLANWNDA**
AELODAU'N BRESENNOL	Tom Ellis (Cad), Jason Hunt, Nerys Evans, Gwilym L.Williams, Huw Williams, Gwilym V.Thomas, Meurig Williams, Elin Evans, Jane Eryl Jones, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen, Bethan Williams, Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**
   Elwyn Jones
2. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gan na fydd yn bosib i TE fod yn bresennol yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn bu'n Gadeirydd, a dymunodd yn dda i JH fydd yn cymryd y gadeiryddiaeth am y flwyddyn nesaf.

3. **Datgan Buddiant**
   Nawdd i Ysgol Rhostryfan – NE, JH, BCW
   British Heart Foundation – EE

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd fod cofnodion fis Mawrth yn gywir oni bai am rhestr presenoldeb: cywiriad: ychwanegu Cyng.Glyn Owen a Bethan Williams

5. **Materion i'w trafod:**
   a. MW a HW Llwybrau Rhosgadfan. Clerc i ysgrifennu i'r perchnogion i geisio dwyn perswad arnynt i gadw'r llwybrau'n glir.
   b. NE – nododd fod angen adnewyddu'r arwydd sy'n dynodi 'anaddas i gerbydau mawr' ar Lôn Ty'n Clwt, Rhos Isaf. Clerc i gysylltu â'r adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd.
   c. EmJ – gofyn am lamp yn Ffrwd Cae Du. Clerc i ysgrifennu eto i ofyn beth ydy'r diweddara.
   d. GLW – nodi fod gwteri ymhob ardal yn llawn, a bod angen eu gwagio yn rheolaidd. Clerc i roi gwybod i'r adran berthnasol.
   e. EE – car wedi mynd ar dân ger Tyddyn Seipar/Ty'n Rhos – angen clirio'r ffordd o wydr ac ati. Nododd hefyd fod dwr gwyneb ger Felinwnda yn broblem a bellach fod tyllau mawr yn y ffordd. Clerc i ymholi ymhellach.
   f. TE – arwyddion ar y ffordd osgoi i ddynodi llwybrau troed yn croesi'r ffordd. Clerc i geisio gael atebion gan y swyddfa ym Mae Colwyn. Hefyd, angen gwybodaeth ynglyn a'r arwyddion ar y gylchfan ger y Goat.
   g. Cydnabyddiaeth o dderbyn holiadur yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion
   h. Ymateb gan Richard W.Roberts ynglyn a'r gwaith diffygiol ar Dai Gwelfor.
   i. Ymateb gan Meirion Williams, Adran Briffyrdd ynglyn â diffygion sylweddol ar y ffyrdd yn yr ardal

j. Llythyr o ymddiswyddiad gan Emrys Jones. Clerc i ysgrifennu ato i ddiolch am ei wasanaeth dros y blynyddoedd.

k. Angen gofyn am gael 'speed ramps' ger mynedfa Dreflan yn Rhosgadfan a Penrallt, Saron.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

Cyfarfodydd Cyhoeddus:

Lledu'r ffordd Penygwylwyr – adroddodd GO ar y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn Rhosgadfan. Nododd ei fod yn siomedig efo tair agwedd: i) yn y cais gwreiddiol roedd sôn fod y cynllun yn mynd o Penygwylwyr at fynedfa Cae'r Sais, ii) dydy'r ffordd ddim wedi'i lledu, iii) peryglys o ran gweledded, yn wir mae'n waeth nag oedd cyn y gwelliannau oherwydd uchder y wal newydd. Nododd fod deiseb wedi'i pharatoi a bod dirprwyaeth yn mynd i weld swyddogion Gwynedd yn fuan. Clerc hefyd i ysgrifennu at Adrian Wyn Williams yn gofyn pam na chafodd y Cyngor Cymuned gynllun o'r gwelliannau ymlaen llaw.

Cafwyd cyfarfod cyhoeddus arall yng Nghlwb Mountain Rangers efo James Tongue, CBM lleol newydd ar nos Fawrth, 15fed Ebrill. Trafodwyd problemau anghymdeithasol yn ardal Rhosgadfan a Rhostryfan. Addawyd y byddai presenoldeb uchel yr heddlu yn parhau yn yr ardal. Gofynnwyd i unrhyw un sydd â gwybodaeth am blant a phobl ifanc yn cambyhafio i gysylltu â'r heddlu yn syth, drwy ffonio swyddfa'r heddlu yn Maesincla ar 0845 607 1002

Mynegodd y clerc siom nad oedd yr un o aelodau o Gyngor Llanwnda wedi mynychu, gan mai ar gais y cyngor trefnwyd y noson.

7. **Is-bwyllgorau:**

Is-bwyllgor y fynwent – 14.04.08. Presennol: Nerys Evans, Jason Hunt, Gwilym L.Williams a'r Clerc.

Penderfynwyd peidio a chael pris ar gyfer ail-wynebu'r llwybrau oddi fewn i'r fynwent, ond yn hytrach gofyn wrth y gweithiwr buddugol i glirio'r mwsog a chreu border pendant.

Parthed pryniant tir – amcangyfrifwyd fod angen darn o dir oddeutu 50 x 100m i greu rhan newydd i'r fynwent. Penderfynwyd y byddai £4,500 yn bris teg i'w gynnig. Clerc i roi'r cynnig gerbron Carter Jonas.

Penderfynwyd codi prisiau'r fynwent fel a ganlyn:

Trigolion lleol:
Ffi hawl claddu gan gynnwys gosod carreg: £110.00
Claddu: £80.00
Ffi hawl claddu llwch a gosod carreg: £70.00
Claddu llwch: £80.00
Ffi ymchwil i fedd: £15.00

Trigolion tu allan i'r gymuned:
Ffi hawl claddu gan gynnwys gosod carreg: £350.00
Claddu: £250.00
Ffi hawl claddu llwch a gosod carreg: £220.00
Claddu llwch: £250.00
Ffi ymchwil i fedd: £15.00

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	20,379.03
Cyfri Siec:	403.40
CYFANSWM	**20,782.43**

Penderfynwyd rhoi'r nawdd canlynol:

• Ysgol Rhosgadfan - £200 i dalu am gloch diogelwch ar y drysau allanol	200.00
• British Heart Foundation - £200	200.00
• Ysgol Rhostryfan – £1,000 - cyfraniad tuag at ffensio o amgylch y cae chwarae	1,000.00

Hoffai'r aelodau ddiolch i'r rhieni a'r plant fu'n casglu poteli a chaniau cwrw oedd wedi'u taflu i'r cae chwarae ac ar dir yr hen orsaf yn Rhostryfan.

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Mawrth & ad-dalid Inkmaster	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Peti Cash	300.00
Wyn Williams	304.00
Yr Herald – hysbyseb tendr	173.43
Cyngor Gwynedd – rhent cae chwarae ger Ysgol Rhostryfan	1.00

Derbyniwyd sawl llythyr y gydnabyddiaeth am y nawdd.

Eto i'w dalu: Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio). Angen gofyn am eglurhâd beth ydy'r diweddara ynglyn â'r arwyddion gan Mel Fôn — 8918.89

Yswiriant – llythyr yn ein hysbysu fod y polisi yn newid gan gymryd i ystyriaeth 'Corporate Homicide and Corporate Manslaughter Act 2007.

TENDR:
Daeth nifer o geisiadau i law, a phenderfynwyd dewis y pris fyddai'n adlewyrchu'r gwerth gorau.
Tendrau llwyddiannus:
Mynwent Cefnfaes – Siôn Owen, Carmel
Llwybrau – Siôn Owen, Carmel
Cysgodfannau – Wyn Williams, Groeslon

Materion Cynllunio
Dim ceisiadau newydd i law.
Eisoes wedi'u caniatau:
Ty'n Ffrwd – estyniad

Gohebiaeth:

a) Gwynedd – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
b) Ombwdsmon – llawlyfr egwyddorion gweinyddiaeth dda ac egwyddorion unioni cam – copi ar gael i bawb
c) Cynulliad – fframwaith cenedlaethol Tân ac Achub – cynllun drafft
d) Un Llais Cymru – esboniad etholiadau; garddwest Palas Buckingham; pwyllgor ardal Arfon/Dwyfor 24.04.08 – Institiwt, Caernarfon 7p.m.
e) Llythyr o gwyn ynglyn a ffens rhwng Pen Muriau a Tan Braich, Rhosgadfan – clerc wedi ymweld â'r safle. Eglurodd y clerc fod dwy gamfa dros y ffens. Clerc i ysgrifennu yn nodi'r gwyn ac yn rhoi gwybod fod y ffens wedi'i osod gyda chaniatâd llawn Cynulliad Cymru.
f) Gwynedd – rhaglen waith
g) Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. NE – rwbel ar ochr y ffordd islaw na Mynwent Cefnfaes. Clerc i ymholi.
b. MW – torri gwair ym mhentref Rhosgadfan – sicrhau ei fod ar y rhestr waith.
c. NW – biniau cae chwarae Rhosgadfan
d. Cais i gael cyfeiriad e-bost ar y cofnodion. Clerc wedi gwneud nodyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20p.m.